


**Crynodeb o Adroddiad Ymchwiliad:**

## Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant

# YMCHWILIAD YMYRIADAU ECONOMAIDD SEILIEDIG AR LE - CRYNODEB

**Rhagfyr 2025**

CARDIFF
CAERDYDD

**Cyngor Caerdydd**

# CYNNWYS

CYNNWYS ........ 2
RHAGAIR ........ 3
CYLCH GORCHWYL ........ 4
Y DULL A DDEFNYDDIWYD ........ 5
PRIF GANFYDDIADAU ........ 6
ARGYMHELLION ........ 19
Aelodaeth Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant ........ 21

# RHAGAIR

Parthau Buddsoddi yw'r diweddaraf mewn rhestr hir o Ymyriadau Economaidd Seiliedig ar Le. Maent yn denu £160 miliwn o gyllid ar gyfer ystod o ymyriadau - cymhellion treth, ymchwil a datblygu, seilwaith, cymorth busnes a chynllunio cyflymach. Ar ei ben ei hun, nid yw £160 miliwn yn swm sylweddol i gyflawni newid mawr mewn amodau cymdeithasol ac economaidd. Fodd bynnag, mae dyluniad y Parthau Buddsoddi yn golygu bod ganddynt y potensial i ysgogi lefel sylweddol o gyllid ac adnoddau ychwanegol a chyflawni newid gwirioneddol yn yr economïau lleol a rhanbarthol.

Roedd yr Aelodau yn cydnabod bod angen i ni wybod sut orau i wireddu'r potensial a sicrhau'r buddion a'r etifeddiaeth orau sy'n cronni o'n Parth Buddsoddi. Roedd gennym ddiddordeb mewn deall arfer gorau o Ymyriadau Economaidd Seiliedig ar Le perthnasol blaenorol: Beth sydd angen i ni ei osgoi? Beth sydd angen i ni ei wneud? Roedd gennym ddiddordeb hefyd mewn clywed barn rhanddeiliaid ac i ddysgu o'u profiadau a'u gwybodaeth ac rydym yn diolch i bawb a roddodd eu hamser i gyfrannu at yr Ymchwiliad hwn.

Mae ein canfyddiadau'n canolbwyntio ar agweddau allweddol y Parth Buddsoddi – y lleoliad, cymysgedd yr ymyriadau, y model gweithredu a'r llywodraethu. Rydym wedi tynnu tystiolaeth ar fanteisio i'r eithaf ar fuddion ac etifeddiaeth sy'n croestorri pob un o'r rhain a'u cyflwyno yn eu hadran eu hunain, er hwylustod cyfeirio.

Hoffwn ddiolch i gyd-Aelodau'r grŵp gorchwyl am eu hymrwymiad i gynnal yr Ymchwiliad hwn yn yr amser cyflymaf; nid yw'n dasg hawdd mynd i'r afael â phwnc cymhleth a hidlo tystiolaeth i ganfyddiadau ac argymhellion allweddol, yn enwedig mewn amgylchedd sy'n symud mor gyflym. Rydym yn gobeithio y bydd y rhain o gymorth yn y misoedd nesaf a bod dyluniad, cyrhaeddiad a gweithrediad y Parth Buddsoddi yn darparu'r buddion gwirioneddol y mae pawb y buom yn siarad â nhw yn credu sy'n bosibl.



**Y Cynghorydd Peter Wong**
**Cadeirydd, Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant**
**Rhagfyr 2025**

# CYLCH GORCHWYL

1. Archwilio'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar lwyddiant a methiant Ymyriadau Economaidd Seiliedig ar Le, gan gynnwys ffocws gofodol, ffocws ymyriadau, model gweithredu, a llywodraethu.

2. Nodi'r dulliau a ddefnyddir gan Ymyriadau Economaidd Seiliedig ar Le a lwyddodd i sicrhau'r buddion a'r etifeddiaeth leol orau, gan gynnwys canlyniadau uniongyrchol a chanlyniadau anuniongyrchol canlyniadol.

3. Tynnu'r gwersi sy'n berthnasol i Barth Buddsoddi Caerdydd a Chasnewydd (y Parth Buddsoddi).

4. Defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr Ymchwiliad i wneud argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r Cabinet i lywio gwaith y Parth Buddsoddi.

# Y DULL A DDEFNYDDIWYD

M1. Cynhaliodd yr aelodau yr Ymchwiliad hwn yn ystod mis Hydref 2025 - Rhagfyr 2025.

M2. Derbyniodd yr Aelodau dystiolaeth gan y rhanddeiliaid mewnol canlynol a fynychodd sesiynau holi ac ateb:

- Y Cynghorydd Huw Thomas - Arweinydd
- Jon Day - Rheolwr Gweithredol - Twristiaeth a Buddsoddi.

M3. Derbyniodd yr Aelodau dystiolaeth gan y rhanddeiliaid allanol canlynol a fynychodd gyfarfodydd gyda'r grŵp gorchwyl:

- Yr Athro Nick Clifton – Athro Daearyddiaeth Economaidd a Datblygu Rhanbarthol, Cyd-gyfarwyddwr y Ganolfan Arloesi ac Adfywio Rhanbarthol, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Louise Harris - Prif Swyddog Gweithredol Tramshed Tech
- Elin Lloyd Jones – Pennaeth Ymgysylltu Busnes a Phartneriaethau, Prifysgol Caerdydd
- Colan Mehaffey - Cyfarwyddwr Polisi, Effaith a Phartneriaethau, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC)
- Daniel Sawko – Prif Swyddog Gweithredol, Shipshape
- Huw Swayne – Prifysgol De Cymru
- Dr. Gary Walpole - Cyd-gyfarwyddwr y Ganolfan Arloesi ac Adfywio Rhanbarthol, Cyfarwyddwr Cymuned Arloesi’r Economi Gylchol, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Yr Athro Roger Whitaker – Dirprwy Is-Ganghellor – Ymchwil, Arloesi a Menter, Prifysgol Caerdydd
- Toby Williams – Pennaeth Parth Buddsoddi, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC)

M4. Yn ogystal â'r uchod, ystyriodd yr Aelodau adroddiadau briffio a ddarparwyd gan y Prif Swyddog Craffu, sydd ynghlwm yn Atodiadau 1-3, a roddodd drosolwg o'r dull Parth Buddsoddi, manylion Parthau Buddsoddi eraill y DU, a throsolwg o'r gwersi a ddysgwyd o Ardaloedd Menter blaenorol y DU ac Ardaloedd Menter Prifysgolion.

M5. Comisiynodd yr Aelodau Ymchwil Craffu i gynnal archwiliad desg o adolygiadau presennol o ymyriadau economaidd mewn dinasoedd yn Ewrop a'r Unol Daleithiau, sy'n debyg i Barthau Buddsoddi, er mwyn llunio adroddiad briffio a oedd yn nodi ac yn tynnu sylw at y ffactorau llwyddiant / methiant allweddol ac unrhyw ddulliau a ddefnyddir i sicrhau’r buddion a’r etifeddiaeth leol orau yn llwyddiannus. Mae'r adroddiad Ymchwil Craffu ynghlwm yn Atodiad 4.

M6. Defnyddiwyd y dystiolaeth i nodi canfyddiadau addas o'r Ymchwiliad.

# PRIF GANFYDDIADAU

**Prif Ganfyddiadau**

HF1. Canfu'r Ymchwiliad hwn lawer o enghreifftiau o'r dull Parth Buddsoddi sy'n mynd i'r afael â gwendidau Ymyriadau Economaidd Seiliedig ar Le blaenorol. Mae gwersi wedi'u dysgu ynglŷn â'r angen i:

a. osgoi cynllunio ar gyfer y tymor byr
b. lleihau dadleoli gymaint â phosib
c. ystyried enillion net ac ychwanegoldeb
d. gweithio mewn partneriaeth â'r byd academaidd i sicrhau'r cyfleoedd ymchwil a datblygu gorau, a
e. chanolbwyntio ar gyfleoedd gwerth uwch a'u sicrhau.

HF2. Mae'r gallu i glystyru arloesedd a chryfhau'r ecosystem arloesi yng Nghaerdydd yn allweddol, gyda'r Parth Buddsoddi yn darparu cyfle clir i roi hwb i gymorth busnes a buddsoddiad mewn cwmnïau ymchwil a datblygu ac arloesi er budd yr economi leol, ranbarthol a chenedlaethol.

HF3. Er mwyn llwyddo, mae'n bwysig bod y Parth Buddsoddi yn mynd i'r afael â rhwystrau i arloesi a'u dileu, lleihau biwrocratiaeth, galluogi cyfnewid gwybodaeth, ysgogi arloesi o ran cynnyrch a thynnu ynghyd ymchwil a busnes.

HF4. Mae lleoliad yn allweddol i lwyddiant Parth Buddsoddi; rhaid i leoliadau fod yn hygyrch, yn gynaliadwy, a darparu'r gallu i glystyru arloesedd a dileu rhwystrau i arloesi.

HF5. Mae cynnwys y cyhoedd, gwella atebolrwydd a thryloywder, a sicrhau llywodraethu da, yn hanfodol i wneud yn siŵr bod y Parth Buddsoddi yn sicrhau ei fuddion a'i etifeddiaeth.

HF6. Mae dull P-RC yn mynd i'r afael â llawer o bryderon a heriau ymyriadau economaidd seiliedig ar le blaenorol. Mae cyfle i adeiladu ar hyn, i ddefnyddio'r Parth Buddsoddi i ysgogi buddion cymdeithasol ac economaidd hirdymor i Gaerdydd, y rhanbarth a Chymru gyfan.

**Canfyddiadau Allweddol**

**Lleoliad**

KF1. Mae ymchwil wedi dangos bod y ffactorau lleoliad canlynol yn allweddol wrth ddylanwadu ar berfformiad ymyriadau economaidd seiliedig ar le:

a. Mantais gymharol – atyniad lleoliad i fusnesau a photensial ar gyfer twf
b. Hwyluster datblygu – cyfosod tir syml a safleoedd glân

c. Diwallu anghenion y diwydiannau a busnesau sector blaenoriaeth a ddewiswyd – addasrwydd lleoliad ar gyfer cynhyrchu / darparu gwasanaethau / ehangu, a galluogi busnesau i gysylltu â'i gilydd
d. Alinio safleoedd ag asedau seiliedig ar le presennol – megis y byd academaidd, darparwyr sgiliau a hyfforddiant, darpariaeth trafnidiaeth, a rhwydweithiau cymorth busnes.
e. Presenoldeb ac ansawdd seilwaith cynhwysfawr – trafnidiaeth gyhoeddus dda a chysylltiadau teithio llesol, i alluogi hygyrchedd a chynhwysiant, a gwasanaethau cyhoeddus da, i alluogi amodau cymdeithasol ac amgylcheddol da.
f. Cyfleus i fusnesau a'r byd academaidd – i alluogi a chreu rhyngweithio.

KF2. Canfu adolygiad o Barthau Buddsoddi eraill y DU eu bod yn defnyddio amrywiaeth a chymysgedd o safleoedd, gan ddewis safleoedd sy'n cyd-fynd â'u ffocws sector blaenoriaeth ac sydd â chysylltiadau trafnidiaeth da, gan gynnwys safleoedd canol y ddinas, safleoedd maestrefol, a safleoedd ymylol.

***Canol y Ddinas***

KF3. Canfu dadansoddiad o Ymyriadau Economaidd Seiliedig ar Le blaenorol, yn benodol Ardaloedd Menter y DU, mai’r rhai canol y ddinas oedd y mwyaf llwyddiannus, gyda’r rownd ddiweddaraf o'r rhain yn cynhyrchu twf swyddi o 63% er gwaethaf cwmpasu dim ond 6% o gyfanswm y tir a gwmpesir gan yr ardaloedd hyn. Canfu'r iteriad cyntaf o Ardaloedd Menter y DU mai’r rhai mewn ardaloedd trefol â chysylltiadau trafnidiaeth da a dyfodd gyflymaf.

KF4. Clywodd yr Ymchwiliad hwn gefnogaeth gan randdeiliaid i ddefnyddio canol dinas Caerdydd fel rhan o'r cynnig Parth Buddsoddi, am y rhesymau canlynol:

a. Hygyrchedd – i weithwyr, busnesau a buddsoddwyr gyda'r brif orsaf drenau yng Nghymru yn ogystal â'r orsaf fysiau yng nghanol y ddinas
b. Creu drws ffrynt ar gyfer yr ecosystem Arloesi yng Nghaerdydd
c. GweledEdd – gwella cynhwysiant a chyrhaeddiad drwy godi ymwybyddiaeth a chynyddu tryloywder, gan helpu i feithrin ymddiriedaeth
d. Galluogi clystyru busnesau newydd a chymunedau arloesi mewn lleoliad y maent yn dymuno bod wedi’u lleoli, a fydd yn helpu i ddenu mewnfuddsoddiad, yn galluogi cyfnewid gwybodaeth, yn ysgogi arloesi cynnyrch ac yn chwalu rhwystrau, gan ddod ag ymchwil a busnes ynghyd.

KF5. Sylwodd yr aelodau ar y ffaith bod sawl Parth Buddsoddi arall ledled y DU yn defnyddio safleoedd canol dinas ar gyfer arloesi, gyda choridorau arloesi, cyrrau gwybodaeth a pharthau arloesi i gyd yn cael eu defnyddio, fel y nodir yn Atodiad 2. Clywodd yr Ymchwiliad fod y Parthau Buddsoddi hyn wedi lledaenu eu ffocws o fewn eu sectorau blaenoriaeth a nodwyd, gan gydnabod y daw gwir werth Parthau Buddsoddi o sicrhau bod y cadwyni cyflenwi a'r ecosystemau ehangach yn rhan o'r dull cyffredinol ac yn elwa ar ymyriadau.

***Safleoedd arfaethedig***

KF6. Clywodd yr Ymchwiliad hwn gan P-RC eu bod wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i asesu a gwerthuso nifer o safleoedd, gan arwain at nodi tri safle arfaethedig – un yng Nghasnewydd a dau yng Nghaerdydd. Esboniodd P-RC fod y safleoedd hyn yn ceisio sicrhau'r buddion gorau sy'n deillio o Barth Buddsoddi, gyda'r safle yng Nghasnewydd yn canolbwyntio ar weithgynhyrchu a chynhyrchu Lled-ddargludyddion Cyfansawdd a'r safleoedd yng Nghaerdydd yn ceisio galluogi defnydd digidol a thechnolegol cysylltiedig o'r rhain mewn cynhyrchion a gwasanaethau, a thrwy hynny sicrhau buddion ac etifeddiaeth orau y dull Parth Buddsoddi.

KF7. Nododd tystion y cryfderau canlynol ar gyfer y ddau safle arfaethedig yng Nghaerdydd:

a. Mae'r ddau safle yn cyd-fynd yn dda â meini prawf Parth Buddsoddi ac yn darparu cyfleoedd enfawr i Gaerdydd, rhanbarth P-RC a Chymru gyfan
b. Mae'r ddau safle yn darparu gwelededd i'r Parth Buddsoddi, sy'n helpu i feithrin tryloywder ac ymddiriedaeth, ac mae ganddynt gysylltedd da, sy'n cynorthwyo hygyrchedd a chynhwysiant
c. Mae'r ddau safle mewn ardaloedd sylweddol o dai cymdeithasol neu'n gyfagos iddynt, sy'n golygu y bydd y Parth Buddsoddi yn cynnig mynediad i'r poblogaethau hyn at ystod o gyfleoedd da ar garreg eu drws ac yn arwain at fwy o gymysgedd cymdeithasol yn yr ardaloedd hyn
d. Mae'r ddau safle yn cysylltu'n dda â safle Casnewydd
e. Mae gan y ddau safle berchnogaeth a chydosodiad tir syml.

**Ymyriadau**

KF8. Mae adolygiadau o Ymyriadau Economaidd Seiliedig ar Le blaenorol yn tynnu sylw at ganlyniadau cymysg, a all arwain at anghydraddoldebau rhanbarthol sy'n cyfrannu at y '*ddaearyddiaeth anfodlonrwydd'*. Mae angen sicrhau bod y dull Parth Buddsoddi yn dysgu'r gwersi o'r gorffennol drwy: osgoi cynllunio ar gyfer y tymor byr; lleihau dadleoli; cydnabod yr angen i ystyried enillion net ac ychwanegoldeb; a pharu ymyriadau â nod perthnasol.

KF9. Mae £160 miliwn yn cael ei ddyrannu i Barthau Buddsoddi ac maent yn gallu cynnig cymysgedd o ymyriadau, gan gynnwys cymhellion treth a chyllid ar gyfer ymchwil a datblygu, arloesi, seilwaith, datblygu sgiliau, cymorth busnes, a chynllunio cyflymach.

KF10. Mae'n bwysig deall o'r farchnad, diwydiannau a busnesau pa fathau o ymyrraeth sydd eu hangen arnynt ac i allu creu hyblygrwydd mewn ymyriadau i fodloni gofynion y farchnad. Mae hefyd yn bwysig i'r Parth Buddsoddi ymyrryd lle bydd enillion oherwydd gellir cyflwyno'r asedau, y cyflenwad a'r galw a darparu enillion tymor hwy i Gaerdydd a'r rhanbarth.

KF11. Canfu dadansoddiad o'r cynigion o Barthau Buddsoddi eraill y DU fod pob un ohonynt yn buddsoddi mewn sgiliau, seilwaith, ymchwil a datblygu, a chymorth busnes, i raddau amrywiol, gyda defnydd amrywiol o gymhellion treth.

***Ardrethi Annomestig***

KF12. Un o'r dulliau sydd ar gael i Barthau Buddsoddi i sicrhau effaith hirdymor yw bod yr awdurdod lleol yn cadw Ardrethi Annomestig, dros gyfnod o 25 mlynedd, ar gyfer busnesau newydd sydd wedi'u cofrestru ar y safleoedd, gydag arian wedyn yn cael ei ailgylchu i ymyriadau Parth Buddsoddi. Yn Lloegr a'r Alban, mae awdurdodau lleol yn gallu cadw 100% o'r categori hwn o ardrethi annomestig; yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ar gyfradd gadw ardrethi annomestig o 50%.

KF13. Mae'r Ymchwiliad hwn yn cydnabod bod y dull hwn yn rhoi ein Parth Buddsoddi dan anfantais gystadleuol wirioneddol o'i gymharu â Pharthau Buddsoddi eraill y DU - gan leihau'n sylweddol faint o arian sydd ar gael i ymyrryd, gan effeithio ar broffil gwariant y gronfa £160 miliwn, ac arwain at lai o arian ar gyfer darparu cymorth ar draws y bwrdd - heb sail resymegol gymhellol i'w gefnogi.

***Cymhellion Treth***

KF14. Daeth ymchwil y Ganolfan Dinasoedd ar Ymyriadau Economaidd Seiliedig ar Le blaenorol i'r casgliad bod cymhellion treth sy'n canolbwyntio ar annog adleoli yn annhebygol o greu gweithgaredd newydd neu ddenu swyddi sgiliau uwch. Fodd bynnag, canfu ymchwil ar Ardaloedd Menter yr Unol Daleithiau fod credydau treth sy'n canolbwyntio'n benodol ar Ymchwil a Datblygu yn gysylltiedig â mwy o fuddsoddiad.

KF15. Gall Parthau Buddsoddi ddewis p'un ai cynnig cymhellion treth ai peidio – os byddant yn dewis peidio â gwneud, mae'r £160 miliwn cyfan ar gael i ariannu'r ystod arall o ymyriadau. Canfu dadansoddiad o'r cynigion gan Barthau Buddsoddi eraill y DU fod rhai ohonynt wedi penderfynu peidio â defnyddio'r dynodiad safleoedd treth, gan olygu y gallant ddefnyddio eu £160 miliwn cyfan ar yr ystod arall o ymyriadau.

***Datblygu Sgiliau***

KF16. Pwysleisiodd ymchwil i lywio'r Ymchwiliad hwn bwysigrwydd ymyriadau datblygu sgiliau er mwyn sicrhau cronfa o lafur â chymwysterau priodol ac i alluogi pobl leol i elwa ar y Parth Buddsoddi. Bydd hyn yn cyflwyno buddion i gymunedau lleol a bydd hefyd yn helpu hirhoedledd y Parth Buddsoddi, gan greu swyddi '*gludiog*' a gwella galluoedd unigolion a sefydliadau.

KF17. Clywodd yr Ymchwiliad fod y canlynol yn allweddol ar gyfer ymyrraeth datblygu sgiliau effeithiol:

a. Cysylltu â diwydiant a busnes am eu gofynion
b. Cael strategaeth/cynllun sgiliau
c. Rhoi seilwaith sgiliau ar waith

d. Mynd i'r afael â rhwystrau - ehangu cyfranogiad, darparu hyfforddiant hyblyg, darparu gweithgareddau wedi'u targedu, darparu prentisiaethau, a gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc
e. Cynnwys sgiliau trosglwyddadwy.

KF18. Yn hollbwysig, clywodd yr Ymchwiliad hwn dystiolaeth glir gan sawl tyst o'r angen i godi dyheadau pobl ifanc yn yr ysgol, gan sicrhau eu bod yn gwybod am y cyfleoedd sy'n deillio o'r Parth Buddsoddi a chreu llwybr iddynt gael mynediad atynt. Roedd yr aelodau'n falch o glywed Cyngor Caerdydd yn cydnabod ei rôl, drwy Ymrwymiad Caerdydd, o weithio ar bob cam o addysg gynradd ac uwchradd i godi ymwybyddiaeth ac amlygu cyfleoedd a llwybrau i gael mynediad at y rhain.

***Seilwaith***

KF19. Maes allweddol ar gyfer ymyrraeth Parth Buddsoddi yw gwella'r seilwaith sydd ei angen i fynd i'r afael â hyfywedd safle a chefnogi twf y sector; canfu dadansoddiad o waith Parthau Buddsoddi eraill y DU eu bod yn defnyddio eu harian at y diben hwn, fel y nodir yn Atodiad 2.

KF20. Clywodd yr Ymchwiliad fod angen buddsoddi mewn seilwaith ar gyfer y ddau safle yng Nghaerdydd, er mwyn mynd i'r afael â bylchau hyfywedd a galluogi eu defnyddio er budd hirdymor trigolion lleol, y rhanbarth ehangach a Chymru gyfan fel catalyddion cyflogaeth, yn hytrach na'u defnyddio ar gyfer darpariaeth breswyl y sector preifat yn bennaf, y gall safleoedd addas eraill ddiwallu'r angen amdanynt. Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i gadw 50% o Ardrethi Annomestig, fel y nodir yn KF12 a KF13, yn lleihau'r arian sydd ar gael i ariannu ymyriadau seilwaith.

***Ymchwil a Datblygiad***

KF21. Maes ymyrraeth allweddol arall yw ymchwil a datblygu. Clywodd yr Ymchwiliad hwn gefnogaeth glir i'r Parth Buddsoddi gynnwys ystod o ymyriadau, ariannol ac ymarferol, sy'n cynorthwyo clystyru busnesau newydd a chymunedau arloesi gydag angorau allweddol. Tynnodd tystion sylw at y ffaith y bydd hyn yn helpu i ddenu mewnfuddsoddiad, galluogi cyfnewid gwybodaeth, ysgogi arloesi cynnyrch a chwalu rhwystrau, gan ddod ag ymchwil a busnes ynghyd. Mae ymchwil ar Barthau Buddsoddi eraill y DU yn nodi'r ymyriadau canlynol yn y maes hwn:

a. Ariannol
    i. Preimio pwmp i gynorthwyo busnesau newydd
    ii. Cyllid bwlch hyfywedd
    iii. Cyllid cyd-fuddsoddi.
    iv. Cronfa fuddsoddi gylchol i ddarparu cyllid dyled ac ecwiti
b. Ymarferol
    i. Darparu cyfleusterau
    ii. Darparu cymorth a chyngor
    iii. Mynediad at wasanaethau perthnasol, fel cyfrifyddu, cyngor cyfalaf menter
    iv. Rhwydweithio.

KF22. Clywodd yr Ymchwiliad hwn fod angen cefnogi arloesedd mewn ystyr eang a heb ormod o gyfyngiadau, gyda thystion yn esbonio bod arloesedd yn digwydd ar yr ymylon ac mewn ffyrdd annisgwyl ac felly mae angen i becynnau cymorth alluogi hyn yn hytrach na bod â ffocws rhy gul.

KF23. Clywodd yr Ymchwiliad hefyd ei bod yn bwysig iawn bod y Parth Buddsoddi yn cyd-fynd â chyfleusterau buddsoddi a phresennol eraill, megis y Parth Twf DA a gyhoeddwyd yn ddiweddar, cyllid UKRI a darparwyr sgiliau, i sicrhau'r buddion gorau a hybu arloesedd, gan weithio i sicrhau eu bod yn ategu ei gilydd.

***Cymorth Busnes***

KF24. Tynnodd sawl tyst sylw at yr angen am gymorth busnes effeithiol i helpu i dyfu ein busnesau ein hunain a chael busnesau newydd yn barod am fuddsoddwyr a thwf. Yn allweddol i hyn yw:

a. Deall y dirwedd busnesau bach a chanolig leol, beth yw eu galluoedd, fel bod cymorth busnes wedi'i gynllunio gyda nhw mewn golwg
b. Bod ag ecosystem o gefnogaeth i arloesi, sy'n sicrhau bod pobl yn gallu cysylltu a rhwydweithio, gan hwyluso cyfnewid gwybodaeth.
c. Darparu rhaglenni arloesi
d. Sicrhau bod mannau busnesau newydd ac egin yn cael cymorth i helpu mentrau newydd i lwyddo, gan bobl sydd â phrofiad mewn cymorth busnes a rheoli cyfleusterau.

KF25. Pwysleisiodd Cyngor Caerdydd fod rôl iddo ddefnyddio ei wybodaeth a'i gysylltiadau lleol i sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu i ficrofentrau a busnesau bach a chanolig fel eu bod yn elwa ar y Parth Buddsoddi; mae angen cael rôl llywodraeth leol gref yn y prosiect Parth Buddsoddi a arweinir yn rhanbarthol.

***Cynllunio***

KF26. Clywodd yr Ymchwiliad hwn fod angen mwy o gynllunio ar Barthau Buddsoddi, nid llai, gydag uwchgynllun clir, yn gynnar, gan roi sicrwydd i ddatblygwyr. Esboniodd tystion fod prosesau cynllunio hir yn atal buddsoddwyr tramor. Pwysleisiodd Cyngor Caerdydd y cyfle i wella'r cynnig cynllunio drwy ddefnyddio arian y Parth Buddsoddi i ddarparu capasiti ychwanegol sy'n galluogi uwchgynllunio cydgysylltiedig a gwaith gydag asiantaethau statudol.

***Ymyriadau Arfaethedig***

KF27. Cadarnhaodd P-RC eu bod wedi penderfynu peidio â defnyddio'r dynodiad safleoedd treth. Gwnaethant esbonio eu bod yn gweithio ar ymyriadau pwrpasol i fynd i'r afael â bylchau hyfywedd a denu mewnfuddsoddiad, gan gynnwys:

a. Sgiliau a rhaglenni hyfforddi – *i alluogi pobl leol i uwchsgilio a chael mynediad at gyfleoedd ac osgoi ardaloedd arloesi rhag dod yn ynysoedd anhygyrch*
b. Seilwaith – *prosiectau trafnidiaeth, datblygiadau masnachol a chyfleusterau arloesi*

c. Ymchwil a Datblygu/ Arloesi – *cyllid ar gyfer YaD, talebau arloesi, a chymorth gyda chostau gosod*
d. Cymorth Busnes – *cynorthwyo ymgysylltu ag ymchwil, cefnogi cadwyni cyflenwi*
e. Cynnig Cynllunio Unedig ar draws y ddau Awdurdod Cynllunio Lleol – i *gyflymu datblygiad ar safleoedd Parthau Buddsoddi*
f. Capasiti Diwydiannol Ar y Tir – *denu mewnfuddsoddiad i sicrhau cyflenwad a chynhyrchion ar y tir.*

KF28. Roedd yr aelodau yn falch o glywed P-RC yn esbonio eu bod yn ceisio datblygu cynlluniau blaenoriaeth, gan ganolbwyntio ar ychwanegoldeb a gwerth ychwanegol ochr yn ochr â chynyddu Gwerth Ychwanegol Crynswth neu swyddi a grëwyd.

## Model Gweithredu

### *Ffocws*

KF29. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y cyd-destun ar gyfer ein Parth Buddsoddi yn seiliedig ar led-ddargludyddion cyfansawdd. Archwiliodd yr aelodau a ddylai'r ffocws fod ar eu gweithgynhyrchu yn unig neu a ddylai'r ffocws gynnwys cymhwyso'r dechnoleg hon. Clywodd yr Ymchwiliad fod canolbwyntio'r Parth Buddsoddi ar weithgynhyrchu lled-ddargludyddion cyfansawdd yn unig yn cyfyngu ar y buddion canlyniadol a all gronni ac felly'n lleihau effaith bosibl Parth Buddsoddi. Sylwodd yr aelodau ar y ffaith bod y ffocws cul hwn hefyd yn strategaeth risg uchel o ystyried geowleidyddiaeth ehangach technoleg lled-ddargludyddion cyfansawdd.

KF30. Clywodd yr Ymchwiliad hwn fod mwy o werth i'w gael o'r Parth Buddsoddi drwy sicrhau ei fod yn berthnasol i'r gadwyn gyfan – cyflenwad a galw – a'r ecosystem ac yn allweddol i hyn mae sicrhau bod y Parth Buddsoddi yn cefnogi'r arloesedd ynghylch lled-ddargludyddion cyfansawdd, yn y cymwysiadau digidol a thechnoleg, i '*mynd o sglodion i gliciau*'. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i sicrhau'r effaith orau posibl y Parth Buddsoddi er budd cymunedau lleol, y rhanbarth ehangach, a Chymru gyfan. Mae hefyd yn cyd-fynd â Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU sy'n cynnwys lled-ddargludyddion yn ei hadran ar ddigidol a thechnoleg.

### *Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata*

KF31. Nododd dadansoddiad blaenorol y Llywodraeth o Ardaloedd Menter y DU yr angen am ymgyrchoedd hyrwyddo a marchnata clir. Clywodd yr Ymchwiliad ei bod yn bwysig nid yn unig marchnata cymhellion Parth Buddsoddi ond hefyd pwysleisio pwyntiau gwerthu Caerdydd hefyd, gan gynnwys, er enghraifft, ei bod yn cynnig cydbwysedd bywyd a gwaith da a bod ganddi gronfa economaidd gystadleuol o lafur lleol, cymwysedig. Dywedodd yr Aelodau ei bod yn bwysig bod Caerdydd yn nodi pwynt gwerthu cyffredinol, yn enwedig yng ngoleuni'r cynigion Parth Buddsoddi eraill.

KF32. Tynnodd tystion sylw at y ffaith y bydd angen neilltuo arian y Parth Buddsoddi i farchnata a hyrwyddo, gan weithio gyda phartneriaid fel Prifysgol Caerdydd i sicrhau

bod negeseuon yn briodol. Tynnodd yr aelodau sylw at y ffaith bod cyfle i weithio gyda phobl greadigol lleol i ddefnyddio eu harbenigedd yn y maes hwn. Esboniodd P-RC y byddant yn defnyddio digwyddiadau fel MIPIM i hyrwyddo a marchnata'r Parth Buddsoddi.

***Cyfathrebu***

KF33. Tynnodd tystion sylw at yr angen i sicrhau bod y Parth Buddsoddi yn defnyddio technegau cyfathrebu effeithiol sy'n codi ymwybyddiaeth o'r Parth Buddsoddi, y buddion sy'n cronni'n lleol ac yn rhanbarthol a'r cyfleoedd sydd ar gael. Dywedwyd bod angen cyfathrebu'r negeseuon hyn mewn ffordd sy'n ystyrlon i bobl yn y ddinas a'r rhanbarth, gan fabwysiadu dulliau newydd sy'n cyrraedd cymunedau lleol. Mae'r Aelodau'n nodi'r angen i sicrhau atebolrwydd a thryloywder yn ychwanegu at bwysigrwydd sicrhau dulliau cyfathrebu priodol ac effeithiol, yn enwedig i feithrin ymddiriedaeth a dealltwriaeth ac i liniaru camwybodaeth.

***Cipio Gwerth***

KF34. Er mwyn sicrhau buddion hirdymor gorau y Parth Buddsoddi, mae'n bwysig sicrhau bod ymyriadau yn darparu'r gallu i gipio'r gwerth a grëir yn barhaus. Clywodd yr Ymchwiliad hwn am yr Unol Daleithiau, enghreifftiau lle mae hyn wedi'i gyflawni, fel y nodir yn yr adroddiad hwn, ac maent hefyd yn ymwybodol bod rhai o Barthau Buddsoddi eraill y DU wedi rhoi potiau ailgylchadwy ar waith i alluogi buddsoddiad parhaus, fel y nodir yn Atodiad 2. Mae'r aelodau yn ymwybodol bod P-RC wedi mabwysiadu dull pot ailgylchadwy i'w Gronfa Fuddsoddi Ehangach.

***Cyswllt â Phrifysgolion***

KF35. Mae'r Aelodau yn ymwybodol bod angen sicrhau bod y Parth Buddsoddi yn cynllunio ar gyfer y ffordd orau o sicrhau effeithiolrwydd gorau cyfranogiad prifysgolion. Canfu ymchwil i Ardaloedd Menter Prifysgol blaenorol nad yw cysylltu cyllid ag ymchwil ac arloesi prifysgolion yn golygu'n awtomatig y bydd buddsoddiad yn llwyddiannus.

KF36. Hyd yn hyn, mae'r cyswllt wedi canolbwyntio'n bennaf ar Brifysgol Caerdydd, sef y brifysgol ymchwil leol fwyaf ac, felly, mae'n gyd-lofnodwr y Parth Buddsoddi fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Clywodd yr aelodau fod Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol De Cymru hefyd wedi bod yn rhan o'r gwaith datblygu ar gyfer y Parth Buddsoddi hefyd ac wedi cyfrannu at y gwaith datblygu. Y bwriad yw y bydd y tair prifysgol yn chwarae rhan weithredol yn y dyfodol. Gall aelodau weld bod gan y tair prifysgol feysydd arbenigedd a fydd o fudd i'r Parth Buddsoddi.

KF37. Mae tystiolaeth glir o brifysgolion yn trosoli arian ychwanegol i gefnogi Ardaloedd Menter Prifysgol blaenorol a Pharthau Buddsoddi presennol yn Lloegr, fel y nodir yn Atodiad 3. Mae Prifysgolion y DU yn tynnu sylw at y ffaith mewn Ardaloedd Menter Prifysgolion a sefydlwyd ers 2019 bod hyn yn cyfateb i £4.50 ychwanegol am bob £1 o gyllid cychwynnol y prosiect.

KF38. Mae'r aelodau'n cydnabod bod angen myfyrio ac ystyried y cymysgedd ecwiti priodol ar gyfer cwmnïau deillio; os yw'r ganran ecwiti prifysgol yn rhy uchel, bydd hyn yn atal buddsoddwyr mewnol, a dyna pam mae Prifysgol Caergrawnt a rhai prifysgolion yr Unol Daleithiau a'r Iseldiroedd yn defnyddio dull ecwiti isel.

## Llywodraethu

KF39. Canfu'r Ymchwiliad hwn dystiolaeth bod llywodraethu da yn bwysig i lwyddiant parthau. Mae adolygiadau blaenorol o Ardaloedd Menter Lloegr yn tynnu sylw at y ffaith bod eu trefniadau llywodraethu yn lleoli rheolaeth y parthau o fewn cynllun datblygu economaidd ehangach ac yn seiliedig ar fodel partneriaeth wedi'i arwain gan fusnes. Mae astudiaethau o Ardaloedd Menter blaenorol wedi nodi bod y canlynol yn allweddol i strwythurau llywodraethu da:

a. Maent yn galluogi rhoi nodau a monitro clir a phriodol ar waith
b. Maent yn adlewyrchu natur hirdymor parthau
c. Maent yn hyblyg, i alluogi ymateb wedi'i deilwra ac adweithiol wrth i amgylchiadau newid
d. Maent yn cynnwys y gweithredwyr cywir - gan alluogi gweithgaredd cydgysylltiedig ac integredig gan randdeiliaid sy'n gallu darparu mewnbynnau allweddol sydd eu hangen i gyflawni llwyddiant.

KF40. Tynnodd adrodd diweddar Pwyllgor Busnes a Masnach Tŷ'r Cyffredin '*Performance of investment zones and freeports in England - 2023-24'* sylw at y canlynol:

a. Dylai parthau buddsoddi fod yn gysylltiedig ag un arweinydd rhanbarthol, a ddylai fod yn atebol
b. Mae strwythurau llywodraethu mor gadarn â'u gweithredu
c. Mae archwilio a chraffu cynhwysfawr a phrydlon yn hanfodol i sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr
d. Mae cyfathrebu ac ymgynghori effeithiol a chynhwysol â'r cyhoedd yn allweddol i sefydlu atebolrwydd democrataidd.
e. Mae rheolaeth dynn ar wybodaeth yn cynyddu'r risg o gamwybodaeth, a phan fydd yn cyd-fynd ag adroddiadau hwyr, diffyg manylion, a dibyniaeth amlwg ar adrodd llafar, gall danseilio prosesau gwneud penderfyniadau priodol.
f. Mae'n gyfrifoldeb ar yr awdurdod cyhoeddus i sicrhau bod gwiriadau a balansau priodol ar waith [sydd] yn adlewyrchu egwyddorion Nolan o fod yn agored a thryloyw yn ogystal â gwerth am arian ac enillion cyhoeddus.

KF41. Daeth yr adroddiad i'r casgliad mai gwell llywodraethu oedd yr her allweddol i'w datrys er mwyn caniatáu i barthau buddsoddi gyrraedd eu llawn botensial.

### *Atebolrwydd ac Ymddiriedaeth*

KF42. Cydnabu rhanddeiliaid a gymerodd ran yn yr Ymchwiliad hwn yr angen i sicrhau trefn lywodraethu briodol, nid yn unig oherwydd yr angen i gyfrif am arian cyhoeddus ond hefyd yr angen i fod yn dryloyw a meithrin ymddiriedaeth, gyda'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Parth Buddsoddi a'r cymunedau ehangach yng Nghaerdydd a'r

rhanbarth. Mae ymchwil wedi nodi bod y canlynol yn allweddol i sicrhau atebolrwydd a thryloywder priodol:

a. Cyfranogiad sylweddol y cyhoedd wrth ddatblygu a gweithredu cynlluniau rheoli ac asesiadau effaith
b. Tryloywder ar bob cam o brosiectau
c. Mynediad cyhoeddus at wybodaeth gynhwysfawr
d. Cyfle i'r cyhoedd ofyn cwestiynau.

KF43. Clywodd yr Ymchwiliad hwn gan sawl rhanddeiliad fod angen sicrhau bod lleisiau cymunedau yn cyfrannu at drefn lywodraethu'r Parth Buddsoddi, drwy gynrychiolwyr awdurdodau lleol a/neu ddulliau eraill.

***Lleihau Baich Gweinyddol***

KF44. Pwysleisiodd sawl rhanddeiliad yr angen i sicrhau bod trefniadau llywodraethu yn gymesur, gan daro cydbwysedd rhwng lefelau priodol o atebolrwydd a thryloywder heb chwalu o dan eu pwysau. Gwnaethant dynnu sylw at y ffaith bod trefniadau llywodraethu biwrocrataidd a / neu dameidiog yn ei gwneud hi'n anodd iawn i fusnesau bach a chanolig ac eraill ymgysylltu. Cefnogir y pwynt hwn gan ymchwil i Ardaloedd Menter yr Unol Daleithiau a Pharth Economaidd Arbennig yr Eidal - Campania, a ganfu ei bod yn hanfodol hwyluso a symleiddio gweithdrefnau i leihau'r baich ar fusnesau a chynorthwyo ymgysylltu.

KF45. Clywodd yr aelodau fod cyfle clir i gyflawni strwythur llywodraethu unigol, cydgysylltiedig ar gyfer y Parth Buddsoddi. Mae Parth Campania yn defnyddio dull siop un stop i alluogi mynediad at yr holl wasanaethau llywodraeth a busnes hanfodol, gyda busnesau ac entrepreneuriaid yn gallu cael mynediad at hyn drwy blatfform digidol canolog.

KF46. Fodd bynnag, clywodd yr Ymchwiliad hwn nad yw dull siop un stop yn torri drwodd a glanio gyda busnesau a buddsoddwyr gan ei fod yn awgrymu bod popeth yn cael ei wneud gan y siop un stop a phan nad yw hyn yn digwydd, mae'n arwain at rwystredigaethau. Clywodd yr Aelodau y byddai Model Porthor yn fwy priodol, lle mae'r '*gwifrau llywodraethu'* - y gwaith o symleiddio prosesau ar draws asiantaethau - wedi'i guddio o'r golwg, felly mae profiad y defnyddiwr yn bwynt mynediad sengl drws ffrynt ac yn cael ei gyfeirio mewn ffordd effeithiol a di-dor. Cefnogwyd y farn hon gan dystion eraill, a bwysleisiodd fod angen pen blaen deallus, sy'n cyfeirio pobl i'r lleoedd cywir ac yn sicrhau bod y broses o gael mynediad at ymyriadau mor hawdd â phosibl i alluogi busnesau bach a chanolig i elwa.

KF47. Roedd yr Aelodau yn falch o glywed Cyngor Caerdydd yn cydnabod yr angen i reoli'r baich biwrocrataidd, wrth sicrhau atebolrwydd a thryloywder, yr angen i fuddsoddi adnoddau er mwyn sicrhau bod cymorth i fusnesau a buddsoddwyr, ac y bydd ganddynt ddiddordeb mewn archwilio'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn i lywio eu cynigion.

***Cyfrifoldebau ar wahân clir***

KF48. Mae ymchwil wedi nodi pwysigrwydd gwahanu cyfrifoldebau yn glir, gyda'r canlynol yn allweddol:

a. Gwahanu cyfrifoldebau rheoleiddio yn glir oddi wrth rolau datblygu a gweithredol i atal gwrthdaro buddiannau a sicrhau goruchwyliaeth effeithiol
b. Rhaid i bwerau cyfreithiol fod yn gadarn, wedi'u cefnogi gan gytundebau ffurfiol gyda chyrff llywodraeth eraill.

***Cynnwys y gweithredwyr cywir***

KF49. Derbyniodd yr aelodau adborth cadarnhaol gan randdeiliaid ynglŷn â'u profiadau o weithio gyda'r P-RC, nid yn unig ar y Parth Buddsoddi ond ar brosiectau eraill, megis gwaith yn y sector Diwydiannau Creadigol. Clywodd yr Aelodau fod P-RC wedi sefydlu gweithgor i ffurfio'r Parth Buddsoddi, gan ynghyd â chynrychiolwyr o P-RC, awdurdodau lleol, Prifysgol Caerdydd ac eraill mewn cyfarfodydd wythnosol; mae aelodau'r Gweithgor y siaradodd yr Ymchwiliad hwn â nhw o'r farn bod y dull hwn yn ddefnyddiol.

KF50. Fodd bynnag, sylwodd yr Aelodau ar y ffaith bod yr Ymchwiliad hwn yn cael trafferth ymgysylltu â busnesau lleol, efallai oherwydd lefelau ymwybyddiaeth isel o botensial y Parth Buddsoddi ar gyfer busnesau bach a chanolig yng Nghaerdydd. Clywodd yr Ymchwiliad gan sawl rhanddeiliad y byddai defnyddio dull helics pedwarplyg gyda chymunedau, cyrff cyhoeddus, busnesau a'r byd academaidd yn cydweithio i sicrhau bod y Parth Buddsoddi yn mynd i'r afael ag anghenion lleol, yn sicrhau buddion ac etifeddiaeth orau y Parth Buddsoddi.

***Monitro a Gwerthuso***

KF51. Mae systemau monitro a gwerthuso yn allweddol, ar gyfer galluogi nodi'n gynnar yr angen i addasu polisi a sicrhau bod safonau cyfreithiol yn cael eu diogelu yn ogystal â galluogi atebolrwydd a thryloywder. Mae'n hanfodol y rhoddir ystyriaeth sylweddol i ba fetrigau i'w dewis i fonitro'r Parth Buddsoddi gan y bydd y rhain yn ysgogi'r hyn sy'n cael ei gyflawni – '*rydych chi'n cael yr hyn rydych chi'n ei fesur*'.

KF52. Mae rhanddeiliaid ac ymchwil yn tynnu sylw at yr angen i wneud y canlynol:

a. Bod yn glir ynglŷn â'r hyn y mae'r Parth Buddsoddi yn ceisio ei gyflawni a sut y bydd cynnydd yn cael ei gofnodi, gyda metrigau sy'n cydnabod natur hirdymor y dull Parth Buddsoddi
b. Sicrhau bod dulliau myfyrio ar waith i ystyried cynnydd a nodi addasiadau polisi posibl
c. Sicrhau bod metrigau yn canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n mesur budd Parth Buddsoddi i gymunedau lleol.

***Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam***

KF53. Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam yw'r Parth Buddsoddi arall sy'n gweithredu yng Nghymru. Maent wedi sefydlu Cytundeb Rhyng-awdurdod rhwng CBC Gogledd Cymru, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Wrecsam, cytundeb partneriaeth, sy'n ategu

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y Parth Buddsoddi rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a CBC Gogledd Cymru. Mae'r Cytundeb Rhyng-awdurdod yn nodi manylebau manwl o rolau a chyfrifoldebau'r gwahanol gyrff, gan gynnwys rhai y Cynghorau.

KF54. Mae eu strwythur llywodraethu yn cynnwys:

a. Gweithgor Parth Buddsoddi
b. Bwrdd Cynghori'r Parth Buddsoddi – gan gynnwys ASau ac AoSau lleol, gyda disgwyl i gynrychiolwyr y DU a Llywodraeth Cymru fod yn bresennol mewn rôl arsylwr
c. Grŵp Llywio Sgiliau Parth Buddsoddi
d. Mae'r uchod yn adrodd i Is-bwyllgor Lles Economaidd, sydd yn ei dro yn adrodd i'r CBC.

KF55. Bydd Cynllun Cyflawni Blynyddol yn nodi manylion cynnydd a chyflawni, a fydd yn cael eu cytuno'n flynyddol gan Arweinwyr Cynghorau Sir y Fflint a Wrecsam.

***Strwythur Llywodraethu Arfaethedig***

KF56. Amlinellodd cynrychiolwyr P-RC y strwythur llywodraethu arfaethedig, a gwnaethant ddatgan bod Llywodraeth y DU a Chymru yn fodlon ag ef a'i fod yn defnyddio trefniadau llywodraethu presennol:

a. Bwrdd Cynghori Parth Buddsoddi yn adrodd i Fwrdd Buddsoddi P-RC presennol, sy'n cynnwys swyddogion ac aelodau
b. Bwrdd Buddsoddi P-RC yn adrodd i CBC i'w gymeradwyo, sy'n cynnwys yr Arweinwyr o'r 10 awdurdod lleol sy'n ffurfio'r P-RC.

KF57. Mae'r aelodau'n ymwybodol bod trefniadau llywodraethu'r CBC yn cynnwys Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, gyda chynrychiolwyr craffu o bob un o'r deg awdurdod lleol.

## Sicrhau'r Buddion a'r Etifeddiaeth Orau

KF58. Ceisiodd yr Ymchwiliad hwn ddeall sut i sicrhau'r buddion a'r etifeddiaeth orau sy'n cronni o'r Parth Buddsoddi, i Gaerdydd a'r rhanbarth ehangach, o allu cael mynediad uniongyrchol i'r Parth fel entrepreneur neu geisiwr gwaith, ac o fuddion canlyniadol i gadwyni cyflenwi a sectorau nad ydynt yn gysylltiedig. Nododd rhanddeiliaid mai'r her yw sicrhau bod y Parth Buddsoddi yn hyrwyddo arloesedd ac yn creu mwy o swyddi *ac* yn arwain at adfywio ardaloedd drwy sicrhau budd cymunedau lleol.

KF59. Roedd yr aelodau yn falch o glywed rhanddeiliaid yn hyrwyddo'r angen i'r Parth Buddsoddi sicrhau bod buddion yn '*gludiog*' a bod twf yn hygyrch, yn gynhwysol ac yn gyfrifol, gan fod hyn yn gymdeithasol ddymunol ond hefyd oherwydd y bydd yn cynyddu atyniad Caerdydd i fusnesau, a fydd yn gwerthfawrogi'r cysylltedd cynyddol a'r gronfa o lafur lleol ffyddlon a chymwysedig.

KF60. Mae'r aelodau'n nodi bod gwaith Moretti wedi dangos bod lleoedd sy'n llwyddiannus iawn o ran arloesi / swyddi seiliedig ar wybodaeth dros gyfnod hir o fudd i'r rhai sy'n gweithio yn y swyddi hyn ond hefyd o fudd i'r sectorau gwasanaeth cysylltiedig a'r rhai nad ydynt yn gysylltiedig oherwydd bod y cyflogau uwch yn hidlo drwodd ac yn digwydd dros gyfnod hir o amser. Mae aelodau'n cydnabod nad yw'r budd hwn yn cael ei deimlo'n syth, felly er mwyn teimlo'r lefel hon o fudd, mae angen i'r swyddi fod yn rhai hirdymor a pheidio â diflannu pan fydd cyllid y Parth Buddsoddi yn dod i ben. Roedd gan yr aelodau ddiddordeb mewn clywed am fewnbwn yr Athro K Morgan o ystyried eu harbenigedd mewn datblygu trefol a rhanbarthol ac arbenigedd clyfar a P-RC yn cydnabod yr angen i gymryd camau i osgoi '*ynysoedd arloesi'.*

KF61. Mae'n bwysig bod gwaith ar y Parth Buddsoddi yn ystyried ei effeithiau dosbarthiadol ac yn glir ynghylch pa gymunedau y bydd y Parth Buddsoddi yn fuddiol iddynt. Clywodd yr Aelodau fod cryfder y P-RC yn dechrau yng Nghaerdydd – dyma'r ganolfan yn y model '*canolfan a lloeren'* ac yn darparu cyfleoedd i bobl ar draws y rhanbarth ehangach. Clywodd yr Ymchwiliad y bydd y Parth Buddsoddi yn sicrhau'r buddion gorau os yw'n galluogi twf cynhwysol a hygyrch sy'n ysgogi newid cymdeithasol ac economaidd cadarnhaol. Nododd yr Ymchwiliad y dulliau canlynol i hwyluso hyn:

a. Sicrhau bod ffocws ar enillion ar fuddsoddiad sy'n blaenoriaethu'n economaidd fuddion '*gludiog*', drwy gefnogi swyddi hirdymor, cadwyni cyflenwi lleol a busnesau bach a chanolig a gwella seilwaith a fydd o fudd i gymunedau lleol yn ogystal â buddsoddwyr
b. Cefnogi pobl leol i elwa ar gyfleoedd gwaith drwy
    i. sicrhau bod y cynnig sgiliau a hyfforddiant yn berthnasol i anghenion busnes a diwydiant a'i fod yn hyblyg, yn hygyrch ac yn fforddiadwy
    ii. defnyddio gofynion hurio lleol
    iii. buddsoddi mewn busnesau bach a chanolig lleol a sefydliadau lleol eraill
c. Ystyried sut y gellir cefnogi egwyddorion economi gylchol, gan helpu i sicrhau cadwyni cyflenwi mwy effeithlon, lleol sy'n cefnogi datblygu cynaliadwy
d. Defnyddio'r Parth Buddsoddi fel cyfrwng i ddenu ffrydiau cyllid eraill, fel UKRI a buddsoddiad cysylltiedig arall, drwy ddarparu platfform sy'n dangos bod y Parth Buddsoddi yn gweithio ar y lefel ddyfnaf i gyflawni effaith economaidd a chymdeithasol.

KF62. Er mwyn cefnogi'r uchod, canfu'r Ymchwiliad fod y canlynol yn allweddol:

a. Cynnwys y gweithredwyr cywir – defnyddio dull helics pedwarplyg, gyda chymunedau, cyrff cyhoeddus, busnesau a'r byd academaidd yn cydweithio i sicrhau bod y Parth Buddsoddi yn mynd i'r afael ag anghenion lleol
b. Ystyried canlyniadau bwriadol ac anfwriadol posibl gweithredoedd a dewis metrigau monitro a gwerthuso sy'n canolbwyntio ar y rhai a fydd yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol, cynaliadwy i'r rhanbarth.
c. Mabwysiadu dull Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol – i ysgogi uwchraddio cymdeithasol drwy gyfrannu at dwf economaidd cynhwysol a chyfrifol, dod ag ychwanegoldeb i'r meysydd cywir, ac osgoi economeg '*ddiferu'*.

# ARGYMHELLION

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Ymchwiliad hwn, mae Pwyllgor Craffu’r Economi a Diwylliant yn gwneud yr argymhellion canlynol i Gabinet Cyngor Caerdydd a Chydbwyllgor Corfforaethol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd:

R1. Lleoli’r Parth Buddsoddi fel mesur cefnogol sydd wedi'i gynllunio i ategu a chryfhau fframweithiau strategol sefydledig, buddsoddiadau eraill a chyfleusterau presennol.
*Ategir gan HF1, HF2, HF3, HF4, KF10, KF21-23 yn gynwysedig, KF59-60.*

R2. Adolygu trefniadau llywodraethu'r Parth Buddsoddi i sicrhau bod y rhain yn cefnogi atebolrwydd ac yn meithrin ymddiriedaeth drwy:

a. Archwilio a rhoi dulliau ar waith i hysbysu a chynnwys cymunedau wrth ddatblygu a gweithredu'r Parth Buddsoddi, er enghraifft drwy weithio gyda chynghorwyr wardiau, arweinwyr ffydd, grwpiau cymunedol, cynrychiolwyr cymunedol, diwrnodau agored, gwybodaeth mewn canolfannau lleol fel hybiau a llyfrgelloedd, cylchlythyrau, a gwefan.
*Ategir gan HF5, HF6, KF33, KF43, KF50.*
b. Galluogi craffu cadarn ar y gwaith o’i ddatblygu, rheoli a gweithredu.
*Ategir gan HF5, HF6, KF39-43 yn gynwysedig, KF50, KF53-55 yn gynwysedig, KF56-57.*

R3. Archwilio dulliau llywodraethu sy'n rhoi Cyngor Caerdydd a Chyngor Casnewydd ar flaen y gad ac yn ganolog, gan gydnabod eu rolau allweddol o ran cyflawni'r Parth Buddsoddi’n llwyddiannus a'u galluogi i arfer arweinyddiaeth lle a dangos atebolrwydd democrataidd, e.e. cytundeb partneriaeth Rhyng-awdurdod fel y'i defnyddir gan Gynghorau Sir y Fflint a Wrecsam a Chydbwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru.
*Ategir gan HF5, HF6, KF39-43 yn gynwysedig, KF53-55 yn gynwysedig, KF56-57.*

R4. Defnyddio tystiolaeth yr Ymchwiliad hwn i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Parth Buddsoddi yng Nghaerdydd, yn benodol o ran:

a. Lleoliad canol y ddinas
*Ategir gan HF1, HF2, HF3, HF4, KF1-KF7 yn gynwysedig, KF20-21.*
b. Lleihau dadleoli 'gwael'
*Ategir gan HF1, KF8.*
c. Lobïo Llywodraeth Cymru i feddwl eto am gyfradd gadw o 50% ar gyfer gweithgaredd newydd Ardrethi Annomestig, gan bwysleisio'r angen i Barth Buddsoddi Caerdydd a Chasnewydd fod yn gystadleuol â Pharthau Buddsoddi eraill y DU
*Ategir gan KF12, KF13, KF20.*
d. Cysylltu â’r meysydd diwydiant a busnes i nodi eu gofynion sgiliau i lywio'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth/cynllun sgiliau
*Ategir gan KF10, KF16, KF17, KF61.*
e. Sicrhau bod ffocws y Parth Buddsoddi yn cwmpasu amrywiaeth y cadwyni cyflenwi a galw ac ecosystem arloesi ac yn osgoi rhoi ein holl wyau mewn un fasged

*Ategir gan HF1, HF2, HF3, KF5, KF10, KF21, KF22, KF23, KF29, KF30, KF60-61.*

f. Datblygu pwynt gwerthu cyffredinol sy'n helpu i drosoli cyllid ychwanegol, amrywiol, gan gynnwys cyfalaf menter ac arian ymchwil
*Ategir gan KF4, KF21, KF31, KF32, KF61*
g. Gwneud yn siŵr bod stori'r Parth Buddsoddi yn cael ei hadrodd yn effeithiol i gymunedau lleol gan sicrhau eu bod yn ymwybodol o sut i fanteisio ar ei gyfleoedd
*Ategir gan KF16, KF17, KF18, KF30, KF33, KF40, KF42, KF43, KF50, KF52, KF58, KF61*
h. Archwilio'r model porthor i leihau'r baich gweinyddol a dileu rhwystrau i arloesi llwyddiannus.
*Ategir gan KF24, KF25, KF44-47 yn gynwysedig*

R5. Gwella'r gwaith sydd eisoes ar y gweill i sicrhau buddion ac etifeddiaeth orau y Parth Buddsoddi drwy:

a. Sicrhau bod ffocws ar enillion ar fuddsoddiad sy'n blaenoriaethu'n economaidd fuddion 'gludiog', drwy gefnogi swyddi hirdymor, cadwyni cyflenwi lleol a busnesau bach a chanolig a gwella seilwaith a fydd o fudd i gymunedau lleol yn ogystal â buddsoddwyr
b. Cefnogi pobl leol i elwa ar gyfleoedd gwaith drwy
    i. sicrhau bod y cynnig sgiliau a hyfforddiant yn berthnasol i anghenion busnes a diwydiant a'i fod yn hyblyg, yn hygyrch ac yn fforddiadwy
    ii. defnyddio gofynion hurio lleol
    iii. buddsoddi mewn busnesau bach a chanolig lleol a sefydliadau lleol eraill
c. Ystyried sut y gellir cefnogi egwyddorion economi gylchol, gan helpu i sicrhau cadwyni cyflenwi mwy effeithlon, lleol sy'n cefnogi datblygu cynaliadwy
d. Defnyddio'r Parth Buddsoddi fel cyfrwng i ddenu ffrydiau cyllid eraill, fel UKRI a buddsoddiad cysylltiedig arall, drwy ddarparu platfform sy'n dangos bod y Parth Buddsoddi yn gweithio ar y lefel ddyfnaf i gyflawni effaith economaidd a chymdeithasol.

*Ategir gan yr holl ganfyddiadau ac yn benodol HF1, HF6, KF16 –18 yn gynwysedig, KF20, KF21, KF58-61 yn gynwysedig.*

# Aelodaeth Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant

Y Cynghorydd Peter Wong (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Anny Anderson

Y Cynghorydd Rodney Berman

Y Cynghorydd Catriona Brown-Reckless

Y Cynghorydd Jamie Green

Y Cynghorydd Peter Jenkins

Y Cynghorydd Owen Jones

Y Cynghorydd Margaret Lewis

Y Cynghorydd Sara Robinson

**Gwasanaethau Craffu, Cyngor Sir Caerdydd**
**Ystafell 283, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW**
**Ffôn: 029 2087 3506 E-bost: barngraffu@caerdydd.gov.uk**
**h. 2025 Cyngor Sir Caerdydd**